Gweiddi

# Tasg 1

# Sefyllfaoedd gwahanol

1. Edrychwch eto ar bob un o'r sefyllfaoedd ac yna atebwch y cwestiynau hyn:

**Sefyllfa 1**
Ble ydych chi am fynd? I'r ymarfer pêl-droed neu i'r sinema? Pam?

**Sefyllfa 2**
Sut ydych chi'n mynd i berswadio Heulwen mai dim ond ffrindiau ydych chi a Justin?

**Sefyllfa 3**
Beth, yn eich barn chi, sy'n mynd i ddigwydd nesaf?

**Sefyllfa 4**
Beth ydych chi'n mynd i'w ddweud wrth yr athro?

**Sefyllfa 5**
Sut ydych chi a'ch ffrindiau'n mynd i berswadio'r Pennaeth i newid ei feddwl?

**Sefyllfa 6**
Beth ydych chi am ei wneud? Dadlau gyda'ch tad neu gau eich ceg? Pam?

2. Yng ngholofn 3, disgrifiwch y math o wrthdaro sydd ymhob sefyllfa.

| | SEFYLLFA | MATH O WRTHDARO |
|---|---|---|
| 1. | Ar ôl torri hoff fâs blodau ei fam, mae Colin rhwng dau feddwl a ddylai ddweud wrth ei fam ac wynebu'r canlyniadau neu a ddylai feio Smwt, y ci. | |
| 2. | Ninja warrior ydy Kiko. Mae wedi cael ei hyfforddi gan Yoho Mahrati. Pan gaiff Mahrati ei ladd mewn dull cyfrwys gan Shan o Lwyth Lotus, mae Kiko yn penderfynu dial. Fydd Kiko yn trechu Shan a llwyth pwerus Lotus? | |
| 3. | Yn y flwyddyn 3030, mae'r byd yn hollol ddibynnol ar gyfrifiaduron a robotiaid. Un bore, pan mae Don yn hedfan i'r ysgol ar ei fwrdd hofran, mae pob peiriant yn dechrau ymddwyn yn od ac yn ymosod ar bobl. Beth wnaiff Don rŵan? | |
| 4. | Does gan bobl ddim hawl i gael cŵn ym myd Brian a chaiff pob ci ei ladd. Ond mae gan Brian un ac mae'n clywed am glwb cŵn tanddaearol sy'n brwydro dros ganiatáu cadw cŵn. Ydy e a'i ffrindiau'n llwyddo? | |
| 5. | Mae Janie ar drip rafftio dŵr gwyn ar afon beryglus. Caiff yr arweinydd drawiad ar ei galon. Rhaid i Janie a'i ffrindiau frwydro yn erbyn rhaeadrau peryglus. I wneud pethau'n waeth, mae arth yn eu dilyn ar hyd glan yr afon. Mae'r arweinydd yn cymryd llawer o le ar y rafft ac ychydig o obaith sydd ganddo i fyw. Beth mae'r criw am ei wneud? | |
| 6. | Ddwywaith mae Ron wedi dod yn ail mewn ffair wyddoniaeth a Newton Roberts wedi ennill. Roedd Ron yn casáu'r ffordd roedd Newton yn canmol ei hun ar ôl ennill y llynedd. Felly, eleni, mae Ron yn benderfynol o ennill ac mae wedi gofyn am help gwyddonydd sydd wedi ennill Gwobr Nobel – Chris Carp – ond mae hwnnw wedi cael ei wahardd o'r gymdeithas wyddonol am ei fod wedi gwneud arbrofion ffug. Fydd Ron a'i bartner lloerig yn gallu trechu Newton eleni? | |

3. Ysgrifennwch ddeialog o hanner tudalen rhwng Colin a’i fam (Sefyllfa 1).

4. Ysgrifennwch baragraff yn adrodd hanes Don yn mynd i’r ysgol a’i fwrdd hofran yn mynd yn wyllt (Sefyllfa 3).

5. Ysgrifennwch ymson Janie ar y rafft. Beth mae hi’n penderfynu ei wneud? (Sefyllfa 5).